



2019/20

# Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs)



 /SFWales

 /SF\_Wales

 YouTube /SFWFILM

# Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Bydd y canllaw yma yn helpu os ydych chi'n ymgeisio am gymorth ychwanegol oherwydd bod gennych chi anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhwylder sbectrum awtistiaeth (ASD) neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia.

Am fwy o offerynnau ac arweiniad neu i wneud cais, ewch i [www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk)

Gallwch weld diweddariadau rheolaidd ar Facebook, Twitter ac YouTube hefyd:

 /SFWales

 /SF\_Wales

 YouTube /SFWFILM





**Canllaw am beth yw hwn?**

Tudalen 4



**A ydw i'n gymwys?**

Tudalen 6



**Beth allaf ei gael?**

Tudalen 10



**Sut a phryd ddylwn i  
ymgeisio?**

Tudalen 17



**Gwybodaeth ddefnyddiol  
a chysylltiadau**

Tudalen 20

## Canllaw am beth yw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs) ar gyfer myfyrrwyr addysg uwch newydd a myfyrrwyr addysg uwch sy'n parhau.

Fe'ch ystyrir yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych chi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol.

Mae DSAs yn grantiau i helpu talu'r costau ychwanegol allweddol posibl i chi o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl, anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia. Ni fydd yn rhaid i chi dalu'r rhain yn ôl fel arfer.

Gall DSAs helpu talu'r gost o gael rhywun yno i'ch cynorthwyo (fel rhywun i gymryd nodiadau neu ddehonglydd iaith arwyddion), offer arbenigol, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio.

Diben yr wybodaeth yn y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig, ac ni yw'n ystyried pob sefyllfa.

Os nad ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, gallwch gael rhagor o wybodaeth am beth sydd ar gael yn y man lle'r ydych yn byw o'r gwefannau canlynol:

Lloegr: **[www.gov.uk/studentfinance](http://www.gov.uk/studentfinance)**

Gogledd Iwerddon: **[www.studentfinanceni.co.uk](http://www.studentfinanceni.co.uk)**

Yr Alban: **[www.saas.gov.uk](http://www.saas.gov.uk)**

## A oes rhaid i mi ddweud wrth fy mhrifysgol neu goleg am fy anabledd?

Nac oes. Gallwch gael DSAs heb ddweud wrth eich prifysgol neu goleg, ond mae o gymorth os byddant yn gwybod er mwyn i chi gael yr holl gymorth y mae angen i chi ei gael. Os nad ydych yn dymuno dweud wrth eich prifysgol neu goleg, dylech gynnwys llythyr sy'n nodi hyn gyda'ch cais.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon i brifysgolion a cholegau wahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl trwy eu trin mewn ffordd lai ffafriol wrth gynnis lleoedd a darparu gwasanaethau.

Dan y Ddeddf, rhaid i brifysgolion a cholegau wneud 'addasiadau rhesymol' fel nad yw myfyrwyr anabl dan anfantais arwyddocaol o'u cymharu â myfyrwyr eraill nad ydynt yn anabl.



## A ydw i'n gymwys?

Gallwch gael DSAs os oes gennych chi anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol sy'n effeithio ar eich gallu i astudio, ac rydych:

- yn dilyn cwrs israddedig amser llawn neu gwrs israddedig rhan-amser cymwys (er enghraifft, gradd neu gwrs lefel HND), gan gynnwys Addysg Gychwynnol i Athrawon a chyrsgiau dysgu o bell; neu'n
- dilyn cwrs ôl-raddedig amser llawn neu gwrs ôl-raddedig rhan-amser cymwys gan gynnwys Addysg Gychwynnol i Athrawon a chyrsgiau dysgu o bell.

Ni fydd unrhyw astudio blaenorol yn effeithio ar eich cymhwysra i gael DSAs, hyd yn oed os cawsoch gymorth ariannol. Fodd bynnag, os cawsoch DSAs ar gyfer unrhyw offer arbenigol am gwrs blaenorol, ystyrir hyn.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau oedran ar gael DSAs.

Ni allwch gael DSAs os ydych:

- yn cael cymorth sy'n cyfateb i DSAs gan ddarparwr cyllid arall
- yn fyfyrwr UE
- yn cael bwrsariaeth gan y GIG
- yn cael cyllid gan gyngor ymchwil
- yn cael cyllid gan Gyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig
- yn fyfyrwr ar gwrs rhyngosod sydd ar leoliad am 10 wythnos neu fwy

Efallai y gallech gael DSAs o hyd os ydych yn cyflawni mathau penodol o brofiad gwaith di-dâl yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol. Os nad ydych yn gymwys i gael DSAs yn ystod eich blwyddyn ar leoliad, efallai y byddwch yn gallu cael help gan gynllun Mynediad i Waith.

Ewch i [www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/mynediad-i-waith](http://www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/mynediad-i-waith) i gael rhagor o wybodaeth.

Nid ydych yn gallu cael DSAs ar gyfer mwy nag un cwrs yr un pryd.

### **Myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr y Brifysgol Agored (OU)**

I gael DSA, rhaid i chi fod wedi cofrestru ar gyfer cwrs rhan-amser (yn cynnwys y rhai a ddarperir gan y Brifysgol Agored) neu gwrs israddedig neu ôl-raddedig y Brifysgol Agored sy'n parhau am o leiaf un flwyddyn ac nad yw'n cymryd mwy na phedair gwaith yn fwy o amser i'w gwblhau na chwrs cyfatebol amser llawn.

Mae gwybodaeth bellach am beth allwch ei gael a sut i wneud cais ar gael ar [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

## A ydw i'n gymwys?

### Sut fyddaf yn dangos fy mod yn gymwys?

Mae'r tabl canlynol yn dangos pa dystiolaeth feddygol y bydd angen i chi ei hanfon atom. Cofiwch gadw copi i chi'ch hun o unrhyw beth fyddwch chi'n anfon atom.

Ar gyfer anabledau corfforol neu synhwyraidd, cyflyrau iechyd hirdymor a chyflyrau iechyd meddwl.	Llythyr gan eich Meddyg Teulu neu Ffurflen Tystiolaeth Anabledd wedi'i llenwi a'i llofnodi gan feddyg neu arbenigwr cymwys arall.
Ar gyfer anawsterau dysgu penodol	Adroddiad diagnostig llawn wedi ei lungopïo, wedi ei gynhyrchu gan: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ymarferydd seicolegol, neu</li><li>• athro arbenigol sy'n meddu ar Dystysgrif Arfer Asesu gyfredol.</li></ul>
Ar gyfer anhwylderau sbectrwm awtistiaeth	Llungopi o un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>• datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gan awdurdod lleol,</li><li>• Cynllun Gofal Iechyd Addysgol, neu</li><li>• datganiad ysgrifenedig neu lythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol cymwys i gadarnhau effeithiau hirdymor eich anhwylder ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol, yn cynnwys addysg.</li></ul>



Os paratowyd eich adroddiad diagnostig cyn yr oeddech yn 16 oed, rhaid i chi gael adroddiad wedi'i ddiweddarau.

Bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw brofion y bydd eu hangen arnoch i brofi eich bod yn gallu cael DSAs. Os bydd angen i chi gael prawf ond ni allwch fforddio talu amdano, efallai y gallech gael help ariannol gan eich prifysgol neu goleg.



## Beth allaf ei gael?



Mae DSAs yn helpu talu'r costau ychwanegol y gallech fod yn eu hwynebu o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Mae amrediad o help ar gael, ac mae'r adran hon yn ei ddisgrifio yn fanylach. Nodir yr uchafsymiau y gallwch eu cael.

Nid yw'r hyn y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref, ond mae'n ddibynnol ar eich asesiad anghenion.

## **Myfyrwyr israddedig**

### **Lwfans Offer Arbenigol**

#### **► Beth yw diben hwn?**

Eich helpu i brynu unrhyw offer arbenigol y mae angen i chi ei gael oherwydd eich anabledd, eich cyflwr iechyd hirdymor, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol. Gallwch ei ddefnyddio i dalu am waith trwsio, yswiriant neu gostau gwarant estynedig ar yr offer hwnnw hefyd.

#### **► Faint allaf ei gael?**

Gallwch gael hyd at £5,332 am y cwrs cyfan.

Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref, ond mae'n ddibynnol ar eich anghenion unigol.

#### **► Sut caiff ei dalu?**

Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaeth yn uniongyrchol (er enghraifft, eich prifysgol neu goleg neu asiantaeth gymorth).

#### **► A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?**

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi dalu rhywfaint ohono yn ôl.

#### **► Unrhyw beth arall?**

Y swm a nodir uchod yw'r uchafswm y gallwch ei gael.

Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.

## Lwfans Helpwr Anfeddygol

### ► Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu am weithwyr cymorth (fel darllenwyr, dehonglwyr iaith arwyddion, neu rywun i gymryd nodiadau) a chynorthwywyr anfeddygol eraill y mae eu hangen arnoch er mwyn i chi allu cael budd llawn o'ch cwrs.

### ► Faint allaf ei gael?

Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, gallwch gael hyd at £21,181 y flwyddyn.

Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser, gallwch gael hyd at £15,885 y flwyddyn.

Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref, ond mae'n ddibynnol ar eich anghenion unigol.

### ► Sut caiff ei dalu?

Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaeth yn uniongyrchol (er enghraifft, eich prifysgol neu goleg neu asiantaeth gymorth).

### ► A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi dalu rhywfaint ohono yn ôl.

### ► Unrhyw beth arall?

Y swm a nodir uchod yw'r uchafswm y gallwch ei gael.

Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.

## Lwfans Cyffredinol

### ► Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau eraill sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Gallwch ei ddefnyddio i brynu eitemau fel cetris peiriant argraffu a phapur Braille, neu er mwyn ychwanegu at y lwfansau offer arbenigol a helpwyr anfeddygol yn ôl yr angen. Yn ogystal, fe'i defnyddir i dalu am eich Asesiad Anghenion Astudio ac unrhyw gostau teithio am fynychu.

### ► Faint allaf ei gael?

Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, gallwch gael hyd at £1,785 y flwyddyn.

Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser, gallwch gael hyd at £1,338 y flwyddyn.

Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref, ond mae'n ddibynnol ar eich anghenion unigol.

### ► Sut caiff ei dalu?

Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaeth yn uniongyrchol (er enghraifft, eich prifysgol neu goleg neu asiantaeth gymorth).

### ► A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi dalu rhywfaint ohono yn ôl.

### ► Unrhyw beth arall?

Y swm a nodir uchod yw'r uchafswm y gallwch ei gael.

Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.

## Lwfans Costau Teithio

### ► Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu unrhyw gostau teithio ychwanegol y gallai bod gofyn i chi eu talu er mwyn cyrraedd eich prifysgol neu goleg oherwydd eich anabledd (er enghraifft, os bydd angen i chi deithio mewn tacsï oherwydd bod eich anabledd yn eich atal rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus). Ni fyddwch yn gymwys i gael help i dalu costau teithio bob dydd y byddai disgwyl i unrhyw fyfyrwr eu talu. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddarparu derbynebaw hefyd.

### ► Faint allaf ei gael?

Gallwch gael swm rhesymol i'w wario ar gostau teithio ychwanegol.

Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn ddibynnol ar incwm eich cartref, ond mae'n ddibynnol ar eich anghenion unigol.

### ► Sut caiff ei dalu?

Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaethau'n uniongyrchol (er enghraifft, cwmni tacsï) neu i'ch cyfrif banc. Os ydych yn hawlio gan ddefnyddio 'ffurflen ad-dalu costau', sydd ar gael o [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk), cofiwch gadw unrhyw dderbynebaw neu anfonebaw fel tystiolaeth.

### ► A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi dalu rhywfaint ohono yn ôl.

### ► Unrhyw beth arall?

Os gofynnir i chi fynychu Aseiad Anghenion Astudio, gellir defnyddio'r Lwfans Cyffredinol i dalu am yr aseiad ac unrhyw gostau teithio am fynychu.

Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.

## Beth allaf ei gael?

### Beth yw Asesiad Anghenion Astudio?

Mae Asesiad Anghenion Astudio yn ein helpu i ddysgu sut gallwn gynorthwyo eich anghenion yn ystod eich cyfnod mewn prifysgol neu goleg.

Ar ôl i ni gael eich ffurflen gais a'ch tystiolaeth feddygol, byddwn yn gofyn i chi drefnu Asesiad Anghenion Astudio.

Ni ddylech drefnu'ch Asesiad Anghenion Astudio nes i ni ddweud wrthy'ch eich bod yn gymwys.

Nid prawf yw hwn – ond yn syml, eich cyfle chi i gael sgwrs anffurfiol gyda chynghorydd arbenigol am eich anabledd a'r effaith y mae'n ei gael ar eich astudiaethau.

Yn ystod eich Asesiad Anghenion Astudio, bydd eich cynghorydd yn gwerthuso pa fath o gymorth mae gofyn i chi ei gael er mwyn eich cynorthwyo yn ystod eich astudiaethau.

Mae hyn yn helpu i baratoi adroddiad sy'n argymhell unrhyw

offer arbenigol neu gymorth ychwanegol a allai helpu gyda'ch astudiaethau.

Dim ond am un Asesiad Anghenion Astudio y byddwn yn talu amdano, oni bai bod eich cwrs neu'ch anghenion yn newid mewn ffordd sylweddol. Os byddwch yn teimlo'n anhapus am eich Asesiad Anghenion Astudio cyntaf, dylech gysylltu â ni trwy anfon e-bost at

**SFW\_DSA\_Team@slc.co.uk**

### Myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser

Gallwch gael lwfans syml o hyd at £20,000 y flwyddyn os ydych chi'n astudio'n llawn amser. Bydd hyn yn llai os ydych chi'n astudio'n rhan-amser. Gallwch ddefnyddio hyn ar gyfer offer arbenigol, helpwyr anfeddygol, costau teithio ychwanegol neu gostau eraill cysylltiedig â'ch cwrs. Bydd y swm DSA a gewch yn dibynnu ar eich Asesiad Anghenion Astudio.

Fel arfer, ni fydd angen i fyfyrwyr ôl-raddedig fynychu Asesiad Anghenion Astudio newydd os

## Beth allaf ei gael?

pan oeddech yn astudio ar lefel israddedig.

Gall myfyrwyr ar gyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) wneud cais am y DSAs a ddyfarnir i israddedigion, felly ni fyddant yn gymwys i gael DSAs ôl-raddedig.

### Budd-daliadau

Ni all y rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn gael budd-daliadau seiliedig ar incwm megis y Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth seiliedig ar incwm neu Fudd-dal Tai. Fodd bynnag, efallai y bydd grwpiau penodol (gan gynnwys rhieni sengl, cyplau sy'n fyfyrwyr ac y mae ganddynt blant dibynnol a rhai myfyrwyr anabl) yn gallu cael budd-daliadau seiliedig ar incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn astudio. Bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ystyried unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth (a rhai grantiau myfyrwyr) y gallwch eu cael. Ni ystyrir DSAs.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)





# Sut a phryd ddylwn i wneud cais?

## Myfyrwyr israddedig

### Cam 1

#### Myfyrwyr amser llawn newydd

Ar ôl i chi wneud cais am eich prif gyllid i fyfyrwyr a dweud wrthym eich bod yn dymuno gwneud cais am DSAs, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs yn unig, heb ymgeisio am unrhyw fathau eraill o gyllid i fyfyrwyr, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais DSA1 Lawn y gallwch ei lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

#### Myfyrwyr rhan-amser newydd

Gallwch wneud cais am DSAs trwy lenwi ffurflen gais am DSAs, y gallwch ei lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

### Cam 2

Ar ôl i chi wneud cais am DSAs, byddwn yn gofyn i chi drefnu Asesiad Anghenion Astudio er mwyn darganfod pa offer a chymorth yn union y mae angen i chi ei gael. Pan fyddwn yn gofyn i chi wneud hyn, dylech drefnu'r asesiad hwn cyn gynted ag y bo modd. I chwilio am eich canolfan Asesiad Anghenion Astudio agosaf, ewch i [www.dsa-qag.org.uk](http://www.dsa-qag.org.uk)

## Sut a phryd ddylwn i wneud cais?

### Cam 3

Ar ôl i ni gael canlyniadau'ch Asesiad Anghenion Astudio, byddwn yn rhoi gwybod i chi a fydd Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn gallu talu am unrhyw offer arbenigol a chymorth arall a argymhellir yn adroddiad eich Asesiad Anghenion Astudio. Yn ogystal, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch archebu offer neu drefnu cymorth arall.

Fel arfer, ni fyddwn yn mynnu bod myfyrrwyr yn ailymgeisio am DSAs bob blwyddyn. Pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrrwyr, dylech roi tic yn y blwch sy'n nodi eich bod yn dymuno gwneud cais am DSAs am bob blwyddyn o'ch cwrs.

Bydd angen i fyfyrrwyr ôl-raddedig, myfyrrwyr rhan-amser a myfyrrwyr sy'n gwneud cais am DSAs yn unig lenwi cais (ffurflen lawn DSA1) bob blwyddyn – ond ni fydd angen i chi ailgyflwyno'ch tystiolaeth oni bai bod eich anghenion yn newid.

Gallwch ymgeisio am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn Gymraeg neu Saesneg.

### Myfyrrwyr ôl-raddedig

Os ydych yn fyfyriwr ôl-raddedig ac os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs, dylech lenwi ffurflen gais DSAs (DSA1) a'i hanfon atom. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen ar **[www.cyllidmyfyrrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrrwrycymru.co.uk)**

## Myfyrwyr GIG

Os ydych yn cael cyllid gan y GIG, gallwch droi at y wefan sef [www.nwssp.wales.nhs.uk/dyfarniadau-myfyrwyr](http://www.nwssp.wales.nhs.uk/dyfarniadau-myfyrwyr)

Os ydych yn cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol israddedig, dylech wneud cais i ni.

## Secondeion GIG

Os ydych yn cael eich cyflogi gan y GIG ac os byddwch yn cael eich secondio (trosglwyddo dros dro) i gwrs gofal iechyd, ni fyddwch yn gymwys i gael bwrsariaethau neu DSAs gan GIG fel arfer. Fodd bynnag, gallwch gael DSAs gennym ni os byddwch yn bodloni'r amodau cymhwysedd.

## Cynghorau Ymchwil

Os ydych yn cael cyllid gan gynghorau ymchwil, gallwch droi at y wefan sef [www.rcuk.ac.uk/skills/training](http://www.rcuk.ac.uk/skills/training) am ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am DSAs.



# Gwybodaeth a chysylltiadau

## Cyllid Myfyrwyr Cymru

Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i

[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk)

Gallwch ein ffonio hefyd ar **0300 200 4050** (ffôn testun: **0300 100 1693**) rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA-QAG)

Nodir manylion eich canolfan Asesiad Anghenion Astudio agosaf ar wefan DSA-QAG sef [www.dsa-qag.org.uk](http://www.dsa-qag.org.uk)

## Disability Rights UK

Mae Disability Rights UK yn cynnal llinell gymorth am ddim sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr anabl, ac mae'n cyhoeddi 'Into Higher Education', canllaw blynyddol i fyfyrwyr anabl sy'n ystyried dilyn cwrs addysg uwch. Ewch i wefan Disability Rights UK sef [www.disabilityrightsuk.org](http://www.disabilityrightsuk.org)

Ffôn: **0330 995 0414** (11am tan 1pm ar ddydd Mawrth a dydd Iau.)

E-bost: [studentsdisabilityrightsuk.org](mailto:studentsdisabilityrightsuk.org)

## Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr NUS sef [www.nus.org.uk/nus-wales](http://www.nus.org.uk/nus-wales)

## Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Mae NASMA yn elusen sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar **[www.nasma.org.uk](http://www.nasma.org.uk)**

## Gwasanaeth Cyngori a Chymorth ynghylch Cydraddoldeb (EASS)

Gall llinell gymorth EASS roi gwybodaeth ac arweiniad am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gwahaniaethu a hawliau dynol.

Ffôn: **0808 800 0082**

Ffôn testun: **0808 800 0084**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 10am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

Ewch i wefan EASS sef **[www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com)**

Yn ogystal, gallwch archebu fersiynau Braille, print mawr neu sain o ffurflenni a chanllawiau trwy anfon e-bost at **[brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk)** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer mai dim ond gyda cheisiadau am fersiynau amgen o ffurflenni a chanllawiau y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn hwn ddelio â nhw.

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiâu o'r canllaw hwn ar-lein ar [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk). Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau mewn Braille, print mawr neu sain trwy anfon e-bost yn cynnwys eich manylion ac yn nodi pa ffurflen a fformat rydych ei hangen at [brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk) neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond ceisiadau am fformatau amgen o'n ffurflenni a chanllawiau y bydd y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod yn ymdrin â nhw.

© Argraffydd a Rheolwr y Frenhines o HMSO 2018. Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu rhannau o'r ddogfen hon i ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol ar yr amod

y cydnabyddir y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â

**[HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk](mailto:HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk)**

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer arweiniad yn unig ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.

WG34247

ISBN: 978-1-78903-614-5